Y Bwrdd Craffu ac Atebolrwydd
Archwiliad Dwfn

Ymateb Cychwynnol yr Heddlu i Gam-drin Domestig

Pencadlys Heddlu De Cymru

13 Hydref 2023

Yn bresennol	
Tîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu	
Suzi Graham (SG)	Swyddog Polisi ac Ymchwil (Craffu, Sicrwydd a Chydraddoldeb)
Lee Jones (LJ) – Cadeirydd	Y Prif Weithredwr
Charlotte Amoss (CA)	Arweinydd Strategol (Craffu, Sicrwydd a Chydraddoldeb)
Tamara Lafferty (TL)	Swyddog Cymorth Llywodraethu
Lola Worgan (LM)	Swyddog Polisi ar gyfer Craffu, Sicrwydd a Chydraddoldeb
Megan Stevens (MS)	Uwch-swyddog Polisi – Bregusrwydd a Dioddefwyr
Jessica Mock - Nodiadau	Cynorthwyydd Gweinyddu
Heddlu De Cymru	
Ditectif Uwch-arolygydd Clayton Ritchie (CR)	Dirprwy Bennaeth Diogelu
Prif Gwnstabl Cynorthwyol Trudy Meyrick (TM)	Pennaeth Dros Dro'r Portffolio Troseddau Arbenigol
Carol Woodward (CW)	Pennaeth Perfformio a Sicrwydd Dros Dro

.	Eitem ar yr agenda	Cynnwys
1.	**Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau**	1.1 Croesawodd LJ y rhai a oedd yn bresennol a gwnaed y cyflwyniadau.
2.	**Archwiliad Dwfn – Canfyddiad y Cyhoedd o Blismona 2023** • **Cofnodion y cyfarfod blaenorol**	2.1. Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gofnod gwir, ar wahân i fân ddiwygiadau.
3.	**Adroddiad ar Sicrwydd Busnes – Cam-drin Domestig – Ymateb Cychwynnol yr Heddlu – Canfyddiadau Ymchwil**	3.1 Darparodd CA drosolwg o'r Adroddiad ar Sicrwydd Busnes: Cam-drin Domestig, Ymateb Cychwynnol yr Heddlu a Chanfyddiadau Ymchwil a ddosbarthwyd i fynychwyr cyn y cyfarfod. Esboniodd CA y dulliau ymchwil amrywiol a ddefnyddiwyd i gasglu gwybodaeth i'r maes plismona hwn. Roedd y dulliau'n cynnwys cymysgedd o Grwpiau Ffocws, arolygon ac astudiaethau achos gan y cyfranogwyr canlynol: a) Goroeswyr cam-drin domestig b) Staff y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus c) Swyddogion rheng flaen d) Swyddogion yr Uned Cam-drin Domestig e) Darparwyr Gwasanaeth 3.2 Cyflwynodd CA drosolwg o'r adborth a gafwyd gan staff a Swyddogion Heddlu De Cymru. Trafododd y grŵp anawsterau, gan gynnwys cyfyngiadau amser a phrinder staff ac effaith hyn ar feithrin perthynas â dioddefwyr cam-drin domestig. Tynnodd CA sylw at y ffaith bod darparwyr gwasanaethau wedi darparu argymhellion ar gyfer dulliau cost-effeithiol o helpu staff a swyddogion i feithrin cydberthnasau cadarnhaol â dioddefwyr cam-drin domestig. Trafododd y grŵp fanteision gosod Hyrwyddwr Cam-drin Domestig o fewn y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus. 3.3 Cyflwynodd CA drosolwg o'r adborth a gafwyd gan oroeswyr a darparwyr gwasanaethau cam-drin domestig. Nododd CA brofiadau negyddol cyswllt cychwynnol â'r heddlu a'r effaith hirbarhaol ar oroeswyr. Nododd CA hefyd unrhyw ryngweithio cadarnhaol â chyswllt cychwynnol â'r heddlu. Esboniodd CA y pryderon a godwyd gan gyfranogwyr, gan gynnwys iaith ac agwedd negyddol gan swyddogion a staff a diffyg dull sy'n ystyriol o drawma. Trafododd y grŵp y buddiannau o feithrin cydberthnasau cryf â rhwydweithiau'r goroeswyr. 3.4 Ymddiheurodd CR i oroeswyr a darparwyr gwasanaethau cam-drin domestig a gwnaethant gydnabod eu profiadau negyddol. Nododd CR bwysigrwydd adfer o'r profiadau hyn a gofynnwyd bod unrhyw un sy'n parhau i ddioddef o wasanaeth gwael, yn cael ei rannu â CR. **Cam Gweithredu: Tîm y Comisiynydd i rannu unrhyw brofiadau negyddol pellach â dioddefwyr cam-drin domestig a darparwyr gwasanaethau.** Rhoddodd CR drosolwg o'r gwaith sydd ar ddod a'r gweithrediadau sydd ar waith i hyfforddi staff a swyddogion ynghylch

		pwysigrwydd iaith wrth ymgysylltu â dioddefwyr cam-drin domestig, taith y dioddefwyr ac elfennau gwahanol cam-drin domestig. 3.5 Trafododd y grŵp yr anawsterau wrth gaffael tystiolaeth ar gyfer achosion o gam-drin domestig, fframwaith perfformiad cam-drin domestig a diweddariadau'r dioddefwyr. Nododd CR heriau troseddau ymddygiad fel stelcio ac aflonyddu. Esboniodd CR y cynlluniau sydd ar waith i wella'r maes plismona hwn yn barhaus. Cynhaliodd y grŵp drafodaethau hefyd am y gwaith cenedlaethol sy'n cael ei wneud. 3.6 Myfyriodd LJ ar y sgyrsiau a gafwyd a nodwyd bod angen gosod safonau gyda'r cyswllt cychwynnol hwnnw ag achosion cam-drin domestig, a thrafododd y grŵp y dull cyfiawnder troseddol ehangach o ymdrin â cham-drin domestig. 3.7 Trafododd y grŵp y data sy'n ymwneud â dioddefwyr mynych a'r esboniadau posibl am hyn a chofnodi ethnigrwydd dioddefwyr a throseddwyr. 3.8 Cydnabu TM fod y cyfarfod hwn wedi cynnwys dadl iach a bod yr heriau wedi cael eu croesawu a'u gwerthfawrogi. 3.9 Cydnabu'r grŵp gymhlethdod y maes hwn. Holodd LJ ynghylch y gallu i fonitro llwyddiant yn y maes plismona hwn a'r anhawster wrth fesur agwedd ac empathi'r staff a'r swyddogion. Pwysleisiodd LJ y byddai angen i dîm y Comisiynydd ailedrych ar y pwnc hwn. **Cam Gweithredu: Bydd tîm y Comisiynydd yn adolygu'r ymateb cychwynnol i gam-drin domestig mewn cyfarfod pellach o'r bwrdd ac o bosibl, yn uwchgyfeirio hyn i Fwrdd Strategol y Comisiynydd.**
4.	**Diweddariad am Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS)**	4.1. Nododd CW fod Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi wedi cyhoeddi ei adroddiad arolygu ar Wasanaethau Dalfa Heddlu De Cymru yn ddiweddar. Rhoddodd CW drosolwg cryno o weithgarwch cychwynnol Heddlu De Cymru mewn ymateb i'r adroddiad. 4.2 Trafododd y grŵp bwysigrwydd rôl yr Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa wrth oruchwylio'r ddalfa. 4.3 Cadarnhaodd CW fod Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi gyda Heddlu De Cymru ar hyn o bryd ac mae'n dod i ddiwedd ei 'gam casglu gwybodaeth' o Arolygiad PEEL. Bydd yr arolygiad go iawn yn cael ei gynnal ym mis Tachwedd 2023.
5.	**Casgliadau a Materion i'w Huwchgyfeirio**	5.1 Nododd LJ fod camau gweithredu'n mynd rhagddynt i gael cyfarfod ar wahân gyda Heddlu De Cymru mewn perthynas â'r adolygiad o Noeth-chwilio Plant a darparu ffurflenni chwarterol i Lywodraeth Cymru.

		5.1 Esboniodd LJ yr angen am drafodaethau ac ymgysylltu mewn perthynas â chymorth parhaus i ddioddefwyr cam-drin domestig. Lle bo angen, gellir uwchgyfeirio unrhyw faterion i Fwrdd Strategol y Comisiynydd. **CAM GWEITHREDU: I Heddlu De Cymru a thîm y Comisiynydd drafod cymorth ac ymgysylltiad parhaus â dioddefwyr cam-drin domestig.**
6.	**Unrhyw Fater Arall**	6.1 Trafododd y grŵp Ymgyrch Diogel, sef dull peilot yng Nghaerdydd a'r Fro sy'n cynnig amser ychwanegol i swyddogion DAU ymgysylltu â dioddefwyr nad ydynt yn gefnogol o gŵynion i feithrin ymddiriedaeth a pherthynas. **CAM GWEITHREDU: CR ac MS i drefnu trafodaeth bellach yn ymwneud ag Ymgyrch Diogel.** 6.2 Ni wnaeth unrhyw un godi unrhyw fater arall a daeth y cyfarfod i ben.

Tabl Camau Gweithredu

Nifer	Cam Gweithredu	Perchennog
2.	**Cam Gweithredu: Tîm y Comisiynydd i rannu unrhyw brofiadau negyddol pellach â dioddefwyr cam-drin domestig a darparwyr gwasanaethau.**	**Tîm y Comisiynydd**
3.	**Cam Gweithredu: Bydd tîm y Comisiynydd yn adolygu'r ymateb cychwynnol i gam-drin domestig mewn cyfarfod bwrdd pellach ac o bosibl yn uwchgyfeirio hwn i Fwrdd Strategol y Comisiynydd.**	**Tîm y Comisiynydd**
4.	**CAM GWEITHREDU: I Heddlu De Cymru a thîm y Comisiynydd drafod cymorth ac ymgysylltiad parhaus â dioddefwyr cam-drin domestig.**	**Tîm y Comisiynydd a Heddlu De Cymru**
5.	**CAM GWEITHREDU: CR ac MS i drefnu trafodaeth bellach yn ymwneud ag Ymgyrch Diogel.**	**MS a CR**